

Trafodaeth Caerffili - Beth Sy'n Bwysig i Chi?

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn benodol, rydyn ni wedi bod yn gofyn i chi, trwy sgwrs barhaus, pa wasanaethau'r Cyngor sydd bwysicaf i chi. Yn eich tro, rydych chi wedi dweud wrthym ni pa feysydd rydych chi'n credu y dylen ni eu blaenoriaethu.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich barn yn fawr iawn. Mae wir yn ein helpu ni i flaenoriaethu'r pethau rydyn ni'n gallu eu darparu fel cyngor. Mae eich barn yn ein helpu ni i:

- Barhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y materion y dywedoch chi wrthym ni sydd wedi effeithio fwyaf ar eich ansawdd bywyd (fel baw cŵn a sbwriel)
- Llunio ein rhaglen ni o 10 o 'adolygiadau corfforaethol' y Cyngor cyfan sy'n ceisio sicrhau bod y Cyngor mor effeithiol ag y bo modd
- Sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn cyd-fynd â'r hyn sydd ei angen fwyaf arnoch chi a'ch teuluoedd


Fodd bynnag, mae'r sgwrs barhaus hon yn bwysicach nag erioed. Fel pob cyngor yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig, dim

ond cyllideb gyfyngedig sydd gennym ni ac rydyn ni'n wynebu bwlch o £35 miliwn yng nghyllideb y flwyddyn nesaf yn unig. Mae'n anodd gwerthfawrogi maint y swm hwn, ond rydyn ni'n ffodus i fod mewn sefyllfa gref i wynebu'r heriau hyn yn uniongyrchol.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn iach, ac mae cyfran o'r rhain yn gallu cael ei ddefnyddio os bydd angen yn y dyfodol. Er mwyn i ni allu diogelu'r pethau sydd eu hangen arnoch chi ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gennych chi, mae angen i chi ddweud wrthym ni os ydyn ni dal ar y trywydd iawn – a dweud wrthym ni beth yn wirioneddol bwysig i chi a'ch teulu.

Bydd yr hyn rydych chi'n dweud wrthym ni'n bwysig iawn wrth i ni wneud cynlluniau i ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf a hefyd i sicrhau bod gennym ni gyllideb gytbwys, sy'n rhywbeth mae'n rhaid i ni ei wneud.

Yn ystod rownd hon y drafodaeth, rhowch wybod i ni beth sydd bwysicaf i chi erbyn **dydd Mawrth 6 Rhagfyr** er mwyn i ni sicrhau bod hyn yn cael dylanwad ar ein cynlluniau.



TRAFODAETH CAERFFILI



Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

**Llynedd, dywedoch chi wrthym ni mai'r gwasanaethau isod sydd bwysicaf i chi.
Ydy'r rhain yn fwy neu lai pwysig i chi nawr?**

	Yn fwy pwysig	Yn llai pwysig	Tua'r un pwysigrwydd
Diogelwch cymunedol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Addysg ac ysgolion	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymorth ariannol a Threth y Cyngor i drigolion	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Tai a mynd i'r afael â digartrefedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Canolfannau hamdden	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Llyfrgelloedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Darparu gwasanaethau ar-lein	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Parciau a mannau gwyrdd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Trafnidiaeth gyhoeddus	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cynnal a chadw priffyrdd a ffyrdd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gofal cymdeithasol a gwasanaethau/ cymorth i bobl agored i niwed, pobl hŷn a phlant	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Glanhau'r strydoedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Goleuadau stryd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mynd i'r afael â thlodi bwyd a darparu prydau ysgol am ddim	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Casglu gwastraff ac ailgylchu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Dywedoch chi wrthym ni hefyd bod y pethau hyn yn bwysig i chi. Er mwyn gweld
a ydyn ni'n dal ar y trywydd iawn, dywedwch wrthym ni a yw'r pethau isod yn fwy
neu'n llai pwysig i chi HEDDIW nag oedden nhw adeg hon y llynedd:**

	Yn fwy pwysig	Yn llai pwysig	Tua'r un pwysigrwydd
Newid hinsawdd a lleihau llygredd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwella'r amgylchedd lleol gan: Blannu coed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Glanhau sbwriel/strydoedd a gwelliannau amgylcheddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Swyddi a chyflogaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfleoedd i fod yn heini yn gorfforol ac yn feddyliol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymorth i fusnesau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymorth i deuluoedd gydag incwm isel mewn argyfwng	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwelliannau canol tref	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfleoedd gwirfoddoli	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Darpariaeth gwasanaeth ieuencid	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

A oes unrhyw beth ar goll? Dywedwch wrthym ni:

Rydych chi wedi dweud wrthym ni pa mor bwysig yw gwasanaethau'r Cyngor rydyn ni yn eu darparu i chi a'ch teulu. Hoffen ni wybod nawr pa un o'r rhain sydd BWYSICAF i chi a'ch teulu a PAM.

Dewiswch hyd at dri pheth a dweud wrthym ni pam mai nhw sydd bwysicaf i chi a'ch teulu:

Beth sy'n bwysig?	Pam?
1	
2	
3	

Dim ond cyllideb gyfyngedig sydd gennym ni i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili. A oes gennych chi unrhyw syniadau ar sut gallen ni ddarparu gwasanaethau yn wahanol neu'n well yn y dyfodol? Sut gallen ni weithio gyda chi i wneud hyn?

Gwahoddiad i ymuno â'n Panel Safbwynt

Mae ein Panel Safbwynt yn cynnwys pobl ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili a hoffai gymryd mwy o ran mewn sgysiaau rheolaidd, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb, ar y pethau sy'n bwysig i chi, naill ai'n lleol yn eich cymuned neu faterion ehangach sy'n effeithio ar bobl ledled y Fwrdeistref Sirol.

Rydyn ni bob amser yn chwilio am ragor o bobl i gymryd rhan yn y Panel Safbwynt. Os yw hyn o ddiddordeb i chi, rhowch y manylion cyswllt sydd orau gennych chi:

Enw:

Cyfeiriad:

Cyfeiriad e-bost:

Ffôn:

A byddwn ni mewn cysylltiad i ddweud rhagor wrthy'ch chi am fanteision o ddod yn aelod.

Os ydy'ch ymateb i unrhyw un neu ragor o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn wedi'i ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol: tarddiad ethnig, rhywedd, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynyddion, neu oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch cartref yn aelod o'r lluoedd arfog, neu wedi bod yn aelod – rhowch fanylion isod:

Gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol. Bydd eich ymateb yn ein helpu ni i sicrhau ein bod ni'n cyflawni sampl gynrychioliadol a bydd yn ein helpu ni i wirio a yw'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn diwallu anghenion ein holl gymunedau a thrigolion lleol.

Hysbysiad preifatrwydd: Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth, ewch i:

www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys-cy.aspx

Rydw i'n llenwi'r arolwg hwn:

Fel un o drigolion y Fwrdeistref Sirol

Fel aelod etholedig lleol

Fel person busnes

Fel cynrychiolydd grŵp neu sefydliad y trydydd sector

Fel cynrychiolydd sefydliad arall yn y sector cyhoeddus

Fel aelod o staff

Arall, nodwch: _____

Fy nghod post yw: _____

Rydw i:

Yn fenyw

Yn wryw

Arall, nodwch : _____

Gwell gen i beidio â dweud

Beth yw eich dewis iaith?

Saesneg Cymraeg

Arall (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain)

Os 'arall', nodwch:

Ydych chi o'r farn bod gennych chi anabledd:

Ydw Nac ydw

Gwell gen i beidio â dweud

Beth yw eich oedran? _____

Beth yw eich tarddiad ethnig?

Asiaidd Du

Tsineiaidd Cymysg

Gwyn Gwell gen i beidio â dweud

Arall, nodwch:

Diolch am lenwi'r arolwg hwn.

Dychwelwch y ffurflen hon i'ch llyfrgell agosaf. Fel arall, gallwch chi ddychwelyd yr arolwg ac unrhyw sylwadau ychwanegol drwy'r post i:

Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Polisi Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG